# Chromoendosgopi rhithiol i asesu polyps colorectal yn ystod colonosgopi

10 Mai 2017

Mae NICE wedi argymell rhith cromoendosgopi (VCE) yn defnyddio NBI, FICE neu i-sgan er mwyn asesu polypau'r colon 5mm o faint neu lai yn ystod colonosgopi yn y GIG.

Gall rhai polypau yn y coluddyn droi'n ganseraidd oni chânt eu trin. Ar hyn o bryd, caiff polypau eu tynnu yn ystod colonosgopi a'u hanfon i labordy er mwyn asesu a allant droi'n ganseraidd. Ond, gall gymryd hyd at 3 wythnos i gael canlyniad. Gall endosgopwyr a hyfforddwyd i ddefnyddio VCE nodi a thynnu polypau bach sydd â'r potensial i droi'n ganseraidd, yn ystod colonosgopi, gan roi canlyniad cyflymach. Gallant hefyd nodi polypau na fyddant yn datblygu'n ganser, ac na does angen iddynt gael eu tynnu. Gall hyn atal tynnu polypau'n ddiangen, helpu i wneud penderfyniadau ynghylch goruchwyliaeth barhaus a lleihau baich gwaith labordai.

ISBN: 978-1-4731-2493-6

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights